**Pen-cogydd**
**Hafan Gwydir, Llanrwst, ClwydAlyn**
**37 awr yr wythnos**
**Parhaol**
**£12.61 yr awr**

- **A ydych chi yn chwilio am gydbwysedd bywyd gwaith rhagorol?**
    - **Dim gweithio min nos, bob yn ail benwythnos**
- **A fyddech yn hoffi 25 diwrnod o wyliau cyflogedig (sy'n cynyddu i 30 diwrnod), gyda chyfle i brynu/gwerthu gwyliau blynyddol?**
- **Derbyn cyfraniadau pensiwn cyflogwr hyd at 8%**
- **Ymuno â chynllun beicio i'r gwaith.**
- **Derbyn talebau gofal llygaid**
- **Prydau poeth am ddim yn cael eu darparu i'r holl staff**
- **Pecyn mamolaeth rhagorol a llawer o fuddion cwmni eraill**

### Am bwy yr ydym yn chwilio?

Rydym yn chwilio am Ben-cogydd profiadol i ymuno â'n tîm bach yng Nghynllun Gofal Ychwanegol Hafan Gwydir. Rydym yn chwilio am rywun sy'n rhannu gwerthoedd ein cwmni o ymddiriedaeth, gobaith a charedigrwydd a bydd hyn yn amlwg wrth gefnogi ein preswylwyr hŷn wrth weini yn eu bwyty. I rai o'r preswylwyr mae eu profiad dros ginio yn rhan fawr o'u diwrnod, felly bydd cael sgiliau gwasanaeth cwsmeriaid rhagorol yn hanfodol ar gyfer y swydd a byddai'n ddymunol petaech wedi gweithio mewn swydd debyg o'r blaen.

Mae arnom angen arweinydd rhagorol i arwain a chefnogi'r tîm arlwyo i ddarparu gwasanaeth o safon a hefyd cefnogi'r tîm o ran eu datblygiad proffesiynol personol. Mae gennym gynllun datblygu cefnogol wedi ei gynnwys yn strwythur a swyddi ein timau arlwyo gofal ychwanegol.

Ewch i'n gwefan i weld y disgrifiad swydd llawn, sydd ar gael yn Gymraeg a Saesneg, ynghyd â'r Llwybr Arlwyo sy'n dangos cynllun datblygu'r tîm.

### Pwy ydym ni?

Mae Hafan Gwydir yn rhan o Gymdeithas Tai ClwydAlyn, rydym yn gwirioneddol ymdrechu i ddefnyddio dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ym mhob agwedd o ymuno a gweithio gyda'n gilydd, gan gefnogi pawb i deimlo'n hyderus i ddod â nhw eu hunain i'r gwaith. Mae'r dull traddodiadol o ymgeisio trwy gyflwyno CV yn hollol iawn, ond os dymunwch anfon e-bost yn amlinellu eich sgiliau, cael sgwrs am y swydd neu os byddai'n well gennych ddull arall o ymgeisio a fyddai'n gweddu'n well i chi, cysylltwch a rhoi gwybod i ni.

Rydym yn falch hefyd o gael ein cydnabod ac yn rhan o'r Grŵp Teuluoedd sy'n Gweithio gan gefnogi cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith ac mae gennym ein cefnogaeth fewnol ein hunain gyda'n tîm llesiant, tîm lles, grŵp Niwrowahanol Hafan Pawb, tîm fforwm staff, grŵp cymdeithasol SAS a llawer mwy o ddigwyddiadau a gweithgareddau ad hoc i'n tîm,

preswylwyr a'u teuluoedd. Rydym hefyd yn eich annog i drafod eich gyrfa a rhoddir arweiniad ar sut i symud ymlaen neu newid gyrfa ar wahanol gyfnodau yn ystod eich cyflogaeth gyda ClwydAlyn gan ein bod yn deall bod bywyd y dyddiau hyn yn symud yn gyflym a bod amgylchiadau'n newid. Er mwyn cael gwybod rhagor am weithio i ClwydAlyn a'n tîm rhowch alwad i ni neu ewch i'n gwefan.

**Sut i ymgeisio**

**Ffyrdd i gysylltu gydag unrhyw ymholiadau.**
**Enw:** Wayne Pike, Rheolwr Arlwyo
**E-bost:** Wayne.Pike@clwydalyn.co.uk
**Rhif ffôn** 07393806413

**Ar gyfer y rôl hon bydd arnoch angen gwiriad Trylwyr gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, y byddwn ni'n talu amdano.**

**Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw 25 Medi 2023. Gall y dyddiad hwn newid gan ddibynnu ar nifer yr ymgeiswyr.**

**I ymgeisio anfonwch fynegiant o ddiddordeb yn nodi pam y byddech yn hoffi ymgeisio, gyda'ch CV os yn bosibl, at peopleteam@clwydalyn.co.uk, neu eto os byddai'n well gennych ymgeisio gan ddefnyddio dull gwahanol, cysylltwch.**

Rydym bob amser yn ymdrechu i wella ein harferion recriwtio ac efallai y byddwn yn anfon e-bost atoch yn gofyn i chi am adborth a'ch barn am y profiad recriwtio hefo ni, os byddai'n well gennych i ni beidio â chysylltu â chi, amlygwch hyn yn ystod y broses ymgeisio.